



YSGOL PEN BARRAS

POLISI DISGYBLU DISGYBLION (gan gynnwys gwrth fwlio)

'Mae effeithiolrwydd ysgol i ddatblygu ymddygiad da a hunan-ddisgyblaeth yn dylanwadu ar droseddwy'r ifanc. Rhydd y cyhoedd llyn mesur ar rediad yr ysgol drwy edrych ar safonau ymddygiad y disgyblion'. (GWELLA YSGOLION H.M.S.O.).

NOD

Creu awryglch hapus a chartrefol yn yr ysgol – gan greu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth.

Gweithredu disgyblaeth gyson yn yr ysgol.

AMCANION

1. Gosod sylfaen a fydd yn caniatáu i'r plant i dyfu i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymdeithas.
2. Meithrin hunan barch, parch tuag at eu cyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.
3. Bod yn oddefgar o safbwynt a barn pobl eraill.
4. Derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a bod yn hunan feirniadol.
5. Gwerthfawrogi bodolaeth gwahanol bobloedd, traddodiadau, diwylliannau a chrefyddau ayyb.

CANLLAWIAU CYFFREDINOL

Er mwyn sicrhau awryglch hapus a chartrefol yn yr ysgol bydd rhaid i bob aelod o'r staff (yn athrawon a staff cynorthwyol) ymdrechu'n deg a chyson i gynnal safonau uchel ac i sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r safonau hynny.

TREFN DISGYBLU

1. Cerydd geiriol gan yr athro/athrawes.
2. Cerydd geiriol gan y Pennaeth mewn achosion o ail adrodd y drosedd neu mewn achosion o gamymddwyn difrifol.
3. Gwahodd y rhieni i drafod y sefyllfa – cedwir cofnod o'r cyfarfod.
4. Trafod gyda'r Llywodraethwyr pan fydd angen cymryd mesurau statudol pellach e.e. gwahardd y plentyn.

CASGLIAD

Ceisio'r polisi hwn greu ethos garedig, ystyriol a diormes o fewn yr ysgol. Mae disgyblaeth gadarn yn hanfodol i gyrraedd y nod yma. Bwriad y polisi hwn yw ceisio greu ymdeimlad o ofal a gwarchodaeth o fewn yr ysgol.

O gael eu harfer yn deg ond eto'n gadarn, dylai'r canllawiau hyn sicrhau tegwch i bawb.

Ymdrechir i drin pob plentyn yn deg ond, er mwyn sicrhau tegwch, gall natur y gosb, am yr un gamwedd, amrywio o blentyn i blentyn. Bydd hyn yn dibynnu ar bersonoliaeth, amgylchiadau, aeddfedrwydd ac ymateb cyffredinol y plentyn i dderbyn cosb.

ARWEINIAD GWRTH FWLIO

Fel rhan o raglen datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion y mae ymdrin â'r mater hwn yn annatod. Y mae'r modd y mae'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd yn fater y dylid ei ystyried o ddiwrnod cyntaf eu gyrfa yn yr ysgol gynradd. Gosodir y sylfaeni yn rhaglen datblygiad cymdeithasol y plentyn yn y Blynyddoedd Cynnar, a datblygir yr agwedd hon ar bob cyfle posibl yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2. Y mae codi ymwybyddiaeth plentyn o beryglon bwlio yn rhywbeth a gyfyd yn y gwersi Addysg Grefyddol, yn draws-gwrwclwaid yng ngweithgareddau'r dosbarth, yn y Gwasnaethau Boreol a hefyd yn y Cwricwlwm Cudd.

Manteisir ar bob cyfle i ddiffinio'r hyn a olygwn wrth fwlio, gan roddi digon o gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i chwarae rôl ac i sylweddoli beth yw'r canlyniadau posibl.

Y mae'n bwysig addysgu'r plant am y gwahanol fathau o fwlio:

- (a) Bwlio corfforol.
- (b) Bwlio emosiynol – bygwth, codi ofn, galw enwau, bychanu, difrio, anwybyddu, gorfodi i roi etc.

ARWYDDION O FWLIO

- 1. Plentyn yn troi'n fewnblyg.
- 2. Plentyn yn newid cymeriad.
- 3. Olion camdrin corfforol.
- 4. Amharodwydd i ddod i'r ysgol.
- 5. Amharodwydd i fynd allan i chwarae.
- 6. Safon gwaith yn dirwio.

SICRWYDD I'R UN SY'N CAEL EI F/BWLIO

- 1. Pardorwydd aelod o'r staff i wrando ar gwyn.
- 2. Sicrwydd o gyfrinachedd: e.e. gweld athro amser chwarae, gofyn i riant ffonio'r ysgol, pasio nodyn ysgrifenedig i aelod o'r staff etc.
- 3. Gweithredu mewn cydweithrediad a'r plentyn.
- 4. Monitro'r canlyniadau dros gyfnod o amser.
- 5. Caniatau i eraill ddod â'r mater gerbron aelod o'r staff.

YMDRIN Â'R UN SY'N BWLIO

- 1. Rhoi cyfle teg iddo/iddi i ddweud ei ran/rhan.
- 2. Egluro'r canlyniadau posibl a'r gosb.
- 3. Rhoi cosb iddo/iddi yn ôl canllawiau'r ysgol.
- 4. Pwysleisio mai un cynnig yn unig sydd iddo/iddi cyn gosod peirianwaith ymateb i fwlio i weithio.

DELIO Â'R BWLI

- 1. Mynd â'r mater (gyda thystiolaeth/tystion) at y Pennaeth.
- 2. Cysylltu a rhieni'r plant – y bwli a'r un sy'n cael ei fwlio.
- 3. Cofnodi'r digwyddiadau'n ysgrifenedig. (yr athro/athrawes i gadw'r nodiadau yn ffeil y disgybl).
- 4. Cyfweld â'r rhieni ar wahân.

OS PERY'R BWLIO. YNA YSTYRIR GWEITHREDU CANLLAWIAU DIARDEL DISGYBL.